**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 EBRILL 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mrs. Catherine Thomas (Swyddog Arolygon); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 11:30

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

2.1. Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

3. **Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

4. **Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Ebrill 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Gorchmynion Cymunedol – Yn disgwyl ymateb gan ein cynghorydd cyfreithiol sy'n ystyried ein proses gwneud gorchmynion a ailddrafftiwyd. **Dirprwy Brif Weithredwr**
- (Mater 6) Gwasanaethau Cyfreithiol – Yn disgwyl ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth mewn perthynas ag ymestyn y contract. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 8) Adeilad – Yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar y brydles. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 10) Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – Cytunodd Comisiwn CFfDLC fod y cyfarfod cyflwyniadol wedi mynd yn dda, ac y byddai cyfarfod pellach yn cael ei drefnu ar gyfer nes ymlaen yn y flwyddyn. **Prif Weithredwr**
- (Mater 16) Ardal Gwella Busnes (AGB) Caerdydd – Disgwyl am gyngor cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymlaen o sefyllfa debyg yn

Aberystwyth. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu, pe bai'r angen am gyngor cyfreithiol yn codi, byddai'n gofyn am gyngor gan fframwaith cyfreithiol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) oherwydd y cyfyngiad amser ar y mater.

## 5. Cofnodion Is-bwyllgor y Gweithlu a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016

5.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 6. Arolwg Staff 2015

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Ebrill 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. Diolchodd y Cadeirydd i bob un o'r staff am gwblhau'r Arolwg Staff ac am ddarparu adborth adeiladol.

6.3. Bydd y rheolwyr yn cyfarfod â staff yn ddiweddarach i drafod y materion yn codi o'r arolwg, yn ychwanegol at atebion er mwyn eu datrys dros y misoedd nesaf.

6.4. Nododd y rheolwyr fod y materion a nodwyd yn Arolwg Staff y llynedd, sydd wedi bod yn destun mesurau, wedi gweld uwchraddiad yn eu sgorau ers hynny.

6.5. **Nodwyd** yr adroddiad, a gadawyd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i'r Rheolwyr ac Is-bwyllgor y Gweithlu benderfynu yn eu cylch.

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ebrill 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Amlinellodd y Rheolwr Cyllid y Risg newydd (CR12), mewn perthynas â drafftio'r gorchmynion arolygon cymunedol y cytunwyd iddynt yng nghyfarfod diwethaf y Comisiwn, sydd wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Risgiau.

7.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

7.4. Cytunwyd, ar ôl gofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn ag AGB Caerdydd, y dylid ychwanegu hyn fel risg ychwanegol ar y Gofrestr Risgiau Gweithredol.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ebrill 2016 gan y Rheolwr Cyllid mewn perthynas â Chyllideb 2015-16 y Comisiwn, ond hefyd mewn perthynas â dyraniad cyllideb 2016-17.

8.2. **Nodwyd** a **Chymeradwywyd** sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015-16 gan y Comisiwn.

8.3. **Cymeradwyodd** y Comisiwn y trosglwyddiadau i ddyraniadau cyllideb 2015-16.

8.4. **Nodwyd** a **Chymeradwywyd** dyraniadau cyllideb 2016-17 gan y Comisiwn. Nodwyd hefyd y gallai fod angen symud rhywfaint o gyllid y Comisiwn Ffiniau i Gymru o 'Cost Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol' i 'Cost Secondeion heb fod yn Llywodraeth Cymru' ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd gofynion staffio ar gyfer arolwg 2018 wedi'u cwblhau.

## 9. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Ebrill 2016 gan y Prif Weithredwr.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad a **Chytunwyd** y broses ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amodol ar y newidiadau canlynol;

- Paragraff 3.4 – dileu *'chi / you'* yn y llinell gyntaf.
- Paragraff 4.1 – ychwanegu '*Fel corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus*' ar y dechrau.

9.3. **Cytunwyd** y byddai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gymwys i unrhyw bolisïau newydd a weithredir, yn ogystal ag unrhyw Gynigion Terfynol yn y dyfodol.

## 10. Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Mawrth 2016 gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynglŷn â phenodi Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

10.2. **Cytunwyd** i ail-benodi Mrs Julie James, yr Aelod Annibynnol presennol, am dair blynedd arall, yn dilyn argymhelliad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## 11. Diweddariad ar Gynlluniau a Symudedd y Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes a roddodd amlinelliad o'r diweddariad ar Gynlluniau a Symudedd y Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad a'r diweddariad ynghylch Cynllunio'r Gweithlu gan y Comisiwn.

## 12. Hysbysiad Cydymffurfio Drafft Safonau'r Gymraeg

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes a oedd yn ymwneud â Hysbysiad Cydymffurfio Drafft Safonau'r Gymraeg.

12.2. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adborth gan y Comisiwn, sydd i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar un fân ddiwygiad gramadegol i'n hymateb i Safon 83.
**Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

## 13. Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Ebrill 2016 gan y Swyddog Arolygon mewn perthynas ag Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg 2015 o Sili.

13.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 14. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Mawrth 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr gan roi diweddariad ar Gynnydd Arolygon.

14.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 15. Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Ebrill 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes ar Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg.

15.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 16. Calendr Digwyddiadau

16.1. **Nodwyd** y Calendr.

16.2. Rhoddodd y **Dirprwy Brif Weithredwr** ddiweddariad byr ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru sydd i'w cynnal, a chynnydd.

## 17. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

17.1. Dim.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 24 Mai 2016**